

ssia

Social Services Improvement Agency
Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Diogelu Oedolion: Llawlyfr i Gynghorwyr



WLGA • CLILC



Leading Social Services
in Wales
Yn arwain
Gwasanaethau Cymdeithasol
yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Crynodeb o’r pwyntiau allweddol	3
Rhagair	4
Pwy rydyn ni’n eu diogelu?	4
Beth yw ystyr cam-drin ac esgeuluso?	5
Sut mae pobl yn cael eu diogelu?.....	6
Byrddau diogelu oedolion.....	8
Beth yw rôl cynghorwyr ynglŷn â diogelu oedolion?	9
Pob cynghorydd	9
Aelod arwain gwasanaethau i oedolion	9
Aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu.....	9
Cynghorwyr mewn rolau perthnasol eraill	10
Cwestiynau allweddol	11
Eich cyngor:.....	11
Eich cyngor a’i bartneriaid:	11
Eich cymuned:	11
Casgliad	12
Atodiad 1 – Astudiaethau o achosion perthnasol	13

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, mae gofyn statudol i ddiogelu oedolion. Mae'r ddeddf hon a'i rheoliadau cysylltiedig wedi cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer atal achosion o gam-drin neu esgeuluso oedolion ac ymateb i bryderon sydd wedi'u codi.

Mae'r trefniadau newydd yn cynnwys:

- Dyletswydd partneriaid perthnasol (gan gynnwys yr heddlu, swyddogion prawf, y GIG ac eraill) i dynnu sylw'r awdurdod lleol at amheuan y gallai oedolyn gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.
- Cyflwyno gorchmynion diogelu a chynorthwyo oedolion fel y bydd modd i broffesiynolion gyrchu adeilad i asesu a yw oedolyn mae tyb ei fod yn agored i niwed yn cael penderfynu'n rhydd ar bob mater drosto ei hun ac a oes angen cymryd unrhyw gamau.
- Sefydlu chwe bwrdd diogelu oedolion yn rhanbarthau Cymru i atal pob cam-drin ac esgeuluso a diogelu oedolion sy'n agored i hynny.
- Sefydlu bwrdd annibynnol gwladol fydd yn cynghori ac yn cynorthwyo'r byrddau rhanbarthol ynglŷn â diogelu oedolion.

Mae rôl allweddol i gynghorwyr ynglŷn â diogelu oedolion mewn nifer o ffyrdd:

- Gofalu – trwy eu penderfyniadau a'u cyfraniad mewn gwaith craffu – eu bod yn helpu i osgoi cam-drin ac esgeuluso.
- Gofalu bod trefniadau cadarn gan y partneriaid allweddol (yn arbennig cynghorau, y GIG a'r heddluoedd) i ymateb i bryderon am gam-drin ac esgeuluso.
- Codi ymwybyddiaeth am gam-drin ac esgeuluso oedolion wrth weithio yn eu wardiau.
- Gwybod sut mae tynnu sylw at achosion o gam-drin neu esgeuluso lle mae achosion o'r fath yn hysbys iddyn nhw neu i drigolion eu wardiau.

Dyma gwestiynau allweddol y gallai cynghorwyr fynnu i swyddogion ac amryw bartneriaid eu hateb:

- Ydy gwasanaethau (yn arbennig iechyd, gofal cymdeithasol a'r heddlu) yn ein hardal yn ddigon da i atal esgeuluso neu gam-drin?
- Ydy gwasanaethau'n ymgysylltu â phobl ac allan nhw ddangos eu bod yn effeithiol pan fo pryderon am gam-drin neu esgeuluso?
- Ydy pobl yn wylidwrus dros ei gilydd yn ein cymunedau ac ydyn nhw'n gwybod sut mae codi pryderon?

Rhagair

Mae ar bob cynghorydd gyfrifoldebau ynglŷn â diogelu oedolion – wrth weithio ymhlith pobl eich ward a chymryd rhan yn nhreffodiadau'r cyngor fel ei gilydd.

Ynghyd â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r heddluoedd, mae'r cynghorau lleol yn bennaf cyfrifol am atal achosion o gam-drin ac esgeuluso oedolion a gofalu y bydd ymateb priodol pan fo pryderon. Eich rôl chi yw dwyn y rhai ac arnyn nhw gyfrifoldeb statudol i gyfrif a gofalu bod hawl oedolion i fyw'n rhydd rhag eu cam-drin a'u bychanu yn ddiogel ynghyd â'u hawl i breifatrwydd, bywyd teuluol, gwrandawriad teg, rhyddhad a diogelwch.

Tipyn o gamp, er bod cymorth ar gael i chi trwy'r awdurdod lleol, WLGA, SSIA a Llywodraeth Cymru. Diben y llawlyfr byr hwn yw cyfleu braslun o'ch rôl yn gynghorydd, rhestr o adnoddau ychwanegol, rhestr wirio i'ch awdurdod lleol a rhestr wirio bersonol ac arni wybodaeth fydd yn eich helpu i fod yn gynghorydd effeithiol yn y maes hwn.

Pwy rydyn ni'n eu diogelu?

Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae pwysigrwydd diogelu ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed wedi cynyddu. Canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Mewn Dwylo Diogel' (2000) oedd y fframwaith polisiau cynhwysfawr cyntaf ar gyfer diogelu oedolion gan ofyn i'r cynghorau arwain gwaith llunio gweithdrefnau a pholisiau lleol ar y cyd â'r heddluoedd a sefydliadau'r GIG. Mae hynny wedi'i ffurfioli bellach trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 ac iddi ofynion statudol am ddiogelu oedolion. Mae'r ddeddf yn galw'r bobl sydd i'w diogelu yn oedolion 'mewn perygl' yn ôl y diffiniadau isod:

'Mae "oedolyn mewn perygl"... yn un –

- a) sy'n cael ei gam-drin/esgeuluso neu'n wynebu perygl o hynny;*
- b) ac arno angen gofal a chymorth (ni waeth a yw'r awdurdod lleol yn diwallu anghenion o'r fath neu beidio); ac*
- c) na all ei amddiffyn ei hun rhag y cam-drin/esgeuluso, neu'r perygl, o ganlyniad i hynny.'*

Mae diogelu oedolion yn wahanol i ddiogelu plant mewn nifer o ffyrdd. Un o'r prif wahaniaethau yw bod disgwyl statudol i ddiogelu plant rhag niwed corfforol a theimladol. Ar y llaw arall, mae gan oedolion sy'n gallu penderfynu drostyn nhw eu hunain (pawb a chanddo'r 'gallu meddyliol') hawl i ddewis drostyn nhw eu hunain, mentro, bod yn rhydd rhag gorthrech a chael dweud eu dweud am gynlluniau eu diogelu. Mae oedolion na allan nhw benderfynu ar bob mater o bwys drostyn nhw eu hunain o achos diffyg gallu meddyliol wedi'u diogelu yn ôl y gyfraith trwy Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Mae diogelu'n ymwneud â phobl, ac mae pawb yn wahanol.

Beth yw ystyr cam-drin ac esgeuluso?

Mae modd cam-drin ac esgeuluso pobl yn eu cartrefi, yn eu cymunedau, mewn cartrefi gofal, yn yr ysbyty, mewn coleg, yn y gwaith, mewn canolfannau oriau dydd, mewn canolfannau cymunedol ac unrhyw fan arall lle mae pobl yn treulio amser neu'n derbyn gwasanaethau.

Mae'r ddeddf wedi diffinio 'cam-drin' ac 'esgeuluso' fel a ganlyn:

Ystyr 'cam-drin' yw cam-drin rhywun mewn modd corfforol, rhywiol, seicolegol, teimladol neu ariannol (gan gynnwys cam-drin sy'n digwydd unrhyw le boed annedd preifat, sefydliad neu unrhyw fan arall), ac mae cam-drin ariannol yn cynnwys – dwyn arian neu eiddo arall; twyllo; rhoi pwysau ar rywun ynglŷn ag arian neu eiddo; camddefnyddio arian neu eiddo arall.

Ystyr 'esgeuluso' yw methu â diwallu anghenion corfforol, teimladol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol rhywun mewn modd sy'n debygol o amharu ar ei lesiant (megis amharu ar ei iechyd).

Rhaid cofio bod llawer o'r achosion sy'n gweddu i'r disgrifiadau uchod o gam-drin ac esgeuluso yn droseddau, wrth gwrs. Dyma enghreifftiau sydd yn y canllawiau statudol (mae astudiaeth o bob achos perthnasol yn **Atodiad 1**):

Cam-drin corfforol – taro, slapio, camddefnyddio moddion neu roi gormod, rhwystro neu gosbi rhywun yn amhriodol;

Cam-drin rhywiol – treisio, ymosod yn rhywiol a gweithredoedd rhywiol nad oedd oedolyn sy'n agored i newid wedi'u caniatáu/nad oedd mewn sefyllfa i'w caniatáu/na fyddai wedi'u caniatáu heb bwysau i gytuno;

Cam-drin seicolegol – bygwth niweidio neu adael rhywun; gorfodi pobl trwy reolaeth; bychanu; cam-drin geiriol neu hiliol; ynysu; tynnu gwasanaethau neu rwydweithiau cefnogol yn ôl. Ystyr 'gorfodi trwy reolaeth' yw niweidio, cosbi neu ddychrynu rhywun trwy ymosod, bygwth, bychanu, erlid neu fathau eraill o gam-drin (boed unwaith neu dros gyfnod).

Esgeuluso – methu â chael gafael ar ofal neu wasanaethau meddygol; bod yn esgeulus yn wyneb peryglon; methu â rhoi moddion yn ôl cyfarwyddiadau meddyg; methu â helpu i gyflawni gorchwylion glanweithdra personol; methu â rhoi bwyd, lloches a dillad; esgeuluso teimladol.

Cam-drin ariannol – ynglŷn â phobl y gallai fod angen gofal neu gymorth arnyh nhw:

- newid ewylllys yn annisgwyl;
- gwerthu neu drosglwyddo cartref yn annisgwyl;
- gweithgarwch anarferol mewn cyfrif banc;
- cynnwys enwau ychwanegol yn annisgwyl mewn cyfrif banc;
- llofnod nad yw'n debyg i'r un arferol;

- amharodrzydd neu ofn wrth drafod materion ariannol;
- rhoi anrheg sylweddol i gynhaliwr neu rywun arall;
- diddordeb annisgwyl perthynas neu rywun arall yn lles y dioddefwr;
- biliau heb eu talu;
- cwynion bod eiddo personol wedi diflannu;
- dirywiad yn yr olwg sydd ar rywun gan awgrymu bod ei anghenion o ran bwyta, glanhau ac ati yn cael eu hanwybyddu;
- ynysu rhywun yn fwriadol rhag ei gyfeillion a'i deulu fel y bydd rheolaeth lwyr ar ei benderfyniadau.

Mae modd didoli pobl sy'n cam-drin neu'n esgeuluso oedolion bregus yn ôl pedwar prif gategori, yn bennaf:

- staff neu weithwyr cymorth cyflogedig;
- perthnasau, cymheiriaid neu gynhalwyr;
- cymdogion a phobl eraill yn y gymuned;
- oedolion eraill mae angen gofal a chymorth arnyn nhw.

Sut mae pobl yn cael eu diogelu?

Mae modd diogelu oedolion mewn cymunedau trwy amryw ffyrdd:

- codi ymwybyddiaeth a gwrthod goddef cam-drin;
- ymatebion effeithiol gan y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddluoedd, y GIG a chyrrff eraill ynglŷn â phryderon am gam-drin ac esgeuluso;
- rhoi gwasanaethau, eirioli, cyfiawnder a chymorth ar gael;
- defnyddio gwersi sy'n deillio o adolygiadau i wella gwasanaethau.

Mae polisïau ac arferion ym maes diogelu oedolion wedi datblygu'n gyflym yn ystod y 12 mlynedd diwethaf wrth i'r gymdeithas ddod yn effro i gam-drin ac esgeuluso mewn cartrefi preifat ac yn y gymuned. Mae ymwybyddiaeth wedi cynyddu yn sgîl achosion adnabyddus hefyd, megis marwolaeth Stephen Hoskin, marwolaethau Fiona Pilkington a'i merch a'r ymchwiliadau i amryw sefydliadau megis Winterbourne View ac Ash Court.

Byrddau diogelu oedolion

Cyfrifoldeb pawb yw diogelu oedolion. Bydd pob un ohonon ni'n cael tynnu sylw at achosion o gam-drin ac esgeuluso ac mae rôl i bawb o ran datblygu cymunedau lle nad oes cam-drin.

Rhaid i'r cyrff sy'n gyfrifol am ddiogelu oedolion gydweithio'n effeithiol â'i gilydd. Mae ar amryw sefydliadau – megis y cynghorau lleol, yr heddluoedd a'r GIG – gyfrifoldebau penodol dros oedolion allai gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Mae byrddau diogelu oedolion Cymru wedi'u sefydlu trwy ddeddf gwlad ynghyd â byrddau diogelu plant a bwrdd annibynnol cenedlaethol dros faterion diogelu. Eu hamcanion yw diogelu oedolion mae eisiau gofal a chymorth arnyn nhw rhag peryglon cam-drin ac esgeuluso, a'u hamddiffyn nhw.

Y cynghorau lleol sy'n arwain y gwaith hwnnw gyda chymorth partneriaid megis yr heddluoedd, y byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG (os ydyn nhw'n cynnig gwasanaethau yn y fro), yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Rheoli Troseddwy'r a Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru.

Mae ardaloedd y gwahanol fyrddau wedi'u pennu yn [Rheoliadau Cyffredinol Byrddau Diogelu Cymru 2015](#). Dyma'r rhai sy'n ymwneud ag oedolion:

Ardal bwrdd diogelu	Gan gynnwys	Prif bartner
Bwrdd Diogelu Oedolion y Gogledd	Ynys Môn Gwynedd Conwy Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent	Blaenau Gwent Caerffili Sir Fynwy Tor-faen Casnewydd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf	Merthyr Tudful Rhondda Cynon Taf	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Bwrdd Diogelu Oedolion y Bae Gorllewinol	Pen-y-bont Castell-nedd Abertawe	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Bwrdd Diogelu Oedolion y Canolbarth a'r Gorllewin	Powys Ceredigion Sir Gaerfyrddin Sir Benfro	Cyngor Sir Gâr
Bwrdd Diogelu Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg	Caerdydd Bro Morgannwg	Cyngor Caerdydd

Rôl y prif bartner yw sefydlu'r bwrdd a rhoi i Weinidogion Cymru wedyn yr holl wybodaeth am faint mae'r bwrdd wedi'i gyflawni lle mae gofyn i wneud hynny.

Beth yw rôl cynghorwyr ynglŷn â diogelu oedolion?

Mae rôl i bob cynghorydd ynglŷn â diogelu oedolion er y bydd ar rai aelodau gyfrifoldebau ychwanegol megis arwain materion diogelu, llywio pwyllgor craffu neu fod yn aelod o bwyllgor perthnasol.

Cynghorion ac awgrymiadau:

Mae rôl bwysig i gynghorwyr o ran diogelu oedolion, gan gynnwys:

- Gofalu – trwy eu penderfyniadau a'u cyfraniad mewn gwaith craffu – eu bod yn helpu i osgoi cam-drin ac esgeuluso.
- Gofalu bod trefniadau cadarn gan y partneriaid allweddol (yn arbennig cynghorau, y GIG a'r heddluoedd) i ymateb i bryderon am gam-drin ac esgeuluso.
- Codi ymwybyddiaeth am gam-drin ac esgeuluso oedolion wrth weithio yn eu wardiau.
- Gwybod sut mae tynnu sylw at achosion o gam-drin neu esgeuluso lle mae achosion o'r fath yn hysbys iddyn nhw neu i drigolion eu wardiau.

Pob cynghorydd

Gan fod rôl allweddol i gynghorwyr ynglŷn â hyrwyddo lles pobl eu cymunedau, maen nhw mewn sefyllfa i godi pryderon a chodi ymwybyddiaeth o ddiogelu oedolion. Gallen nhw gael gwybod am achosion o gam-drin trwy eu gwaith ymhlith pobl y ward, ac mae dyletswydd i dynnu sylw at achosion o'r fath.

Yn rhan o'r rôl lywodraethol – dwyn y cyngor, ei swyddogion a'i bartneriaid i gyfrif a bod yn atebol i'r etholwyr am yr hyn sydd wedi'i gyflawni – mae pob cynghorydd yn gyfrifol am holi aelodau arweiniol a phartneriaid am ddiogelwch oedolion yn ei fro a'r hyn sydd wedi deillio o drefniadau diogelu oedolion.

Aelod arwain gwasanaethau i oedolion

Mae ym mhob cyngor aelod sy'n bennaf cyfrifol am wasanaethau cymdeithasol – rôl ac iddi gyfrifoldeb am arwain gwasanaethau'r cyngor yn wleidyddol, bod yn atebol am eu gwaith a phennu cyfeiriad iddyn nhw. Rhaid i'r aelod arweiniol ofalu bod amryw adrannau'r cyngor yn cydweithio i hybu llesiant, atal achosion o allgau cymdeithasol ac amddiffyn oedolion rhag cam-drin.

Aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu

Mae rôl allweddol i gynghorwyr sy'n ymwneud â gwaith craffu ynglŷn â dwyn arweinyddion i gyfrif. Rhaid i aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu adolygu gwaith y gwasanaethau cymdeithasol a'r byrddau diogelu rhanbarthol i weld:

- sut maen nhw'n atal cam-drin trwy weithio'n effeithiol ar y cyd ag amryw asiantaethau a diogelu safonau gofal;
- pa mor dda mae gwasanaethau'n gweithio i wella deilliannau er lles pobl sydd wedi'u cam-drin neu eu hesgeuluso;

- i ba raddau mae cynlluniau gofal ac amddiffyn yn cadw pobl yn ddiogel;
- sut mae asiantaethau'n gofalu bod hawliau dynol pobl yn cael eu parchu;
- sut mae asiantaethau'n cynnwys pobl yn llawn mewn penderfyniadau am eu bywydau, yn arbennig lle nad oes gallu gyda nhw;
- sut mae gwasanaethau'n hybu hawl pobl sydd wedi'u cam-drin neu eu hesgeuluso i fynnu cyfiawnder;
- pa mor dda mae gwasanaethau'n mynd i'r afael â'r rhai sydd wedi cam-drin neu esgeuluso pobl.

Cynghorwyr mewn rolau perthnasol eraill

Bydd angen i gynghorwyr sy'n aelodau o gyrff ac arnyn nhw gyfrifoldebau am ddiogelu – megis partneriaethau diogelwch cymunedol, paneli materion plismona a throseddu, partneriaethau troseddau atgasedd, partneriaethau trais yn y cartref, gyrff cydlyniant cymunedol a'r GIG – wybod ychydig am waith diogelu oedolion fel y gallen nhw gyflawni eu cyfrifoldebau a gofyn y cwestiynau priodol.

Dylai cynghorwyr fod yn effro i'r modd mae meysydd diogelu plant a diogelu oedolion yn ymwneud â'i gilydd. Er enghraifft, gallai rhyw oedolyn gam-drin plant ac oedolyn bregus arall.

Cwestiynau allweddol

Dyma nifer o gwestiynau allweddol y gallai cynghorwyr fynnu i swyddogion a phartneriaid y cyngor eu hateb:

Eich cyngor:

Ydych chi'n gwybod pa swyddog a chynghorydd sy'n arwain materion diogelu oedolion yn eich cyngor?

Pa hyfforddiant sydd ar gael i'r staff a'r cynghorwyr ynglŷn â gweithdrefnau, polisiau ac arferion diogelu?

Ydy gwasanaethau diogelu'n ymgysylltu â phobl ac allan nhw ddangos eu bod yn effeithiol pan fo pryderon am gam-drin neu esgeuluso?

Eich cyngor a'i bartneriaid:

Ydy gwasanaethau eich bro (yn arbennig iechyd, gofal cymdeithasol a'r heddlu) yn ddigon da i atal cam-drin neu esgeuluso?

Ydy bwrdd y diogelu oedolion yn effeithiol o ran arwain asiantaethau unigol, eu dwyn i gyfrif a gofalu bod asiantaethau'n cydweithio'n dda?

Pa mor dda mae'ch cyngor yn gweithio?

Oes gan fwrdd y diogelu oedolion ddigon o adnoddau ariannol a dynol i gyflawni ei rôl yn effeithiol yn ôl nodau ei gynllun gwaith?

Eich cymuned:

Ydy pobl yn ein cymunedau'n wylidwrus dros ei gilydd? Ydy trigolion ardal eich awdurdod yn gwybod beth yw cam-drin oedolion ac ydyn nhw'n gwybod beth y dylen nhw ei wneud pe bai pryderon gyda nhw amdano?

Oes tystiolaeth bod gwaith diogelu'n effeithio ar oedolion eich cymuned er eu lles? Ydy pobl yn fwy diogel, ydyn nhw'n teimlo'n fwy diogel ac ydyn nhw'n well eu byd?

Cyfrifoldeb pawb yn yr awdurdod lleol yw diogelu, a bydd pob gwasanaeth yn cyfrannu ato. Fel pob mater arall yng ngwaith cynghorydd, dylech chi gyfleu eich pryderon i'r swyddog perthnasol, sef eich cyfarwyddwr statudol neu'r prif weithredwr, os ydych chi o'r farn bod rhywbeth o'i le.

Casgliad

Mae diogelu oedolion yn rhan hanfodol o waith awdurdod lleol ac mae'n croesi ffiniau sawl maes arall megis plismona, cyfiawnder troseddol, ansawdd gofal, troseddau sy'n ymwneud â chasáu'r anabl, diogelwch/cydluniant cymunedau, cam-drin yn y cartref, gorfodi pobl i briodi a chynorthwyo cynhalwyr.

Gan fod mwy a mwy o ymwybyddiaeth bod cam-drin yn rhemp, mae gwir angen i gynghorwyr gymryd camau yn lleol i ofalu bod pawb – megis proffesiynolion, y trydydd sector a'r cyhoedd – yn gwybod am faterion cam-drin ac esgeuluso yn ogystal â gwybod sut mae tynnu sylw at achosion o'r fath, pwy sy'n gyfrifol am gamu i mewn a pha hawliau sydd gan bobl ynglŷn â diogelu, cymorth, dewis ac eirioli.

Mae polisïau ac arferion diogelu oedolion yn symud ymlaen yn gyflym tuag at oes newydd lle bydd pawb yn cymryd o ddifrif egwyddorion megis atal niwed a hybu parchu, grymuso a dewis – a hynny i'r un graddau â nifer y rhybuddion am ddiogelu a chanlyniadau'r ymchwiliadau i fethiannau.

Yn sgîl hynny, mae rolau newydd i gynghorwyr ynglŷn ag archwilio sut mae pobl y fro yn profi diogelu, sut mae'r cyngor wedi ymgynghori ac ymgysylltu â nhw o ran llunio polisïau a monitro gwasanaethau a sut maen nhw wedi cymryd rhan ym mhrosesau paratoi cynlluniau a gweithdrefnau i'w diogelu.

Yn anad dim, rhaid i bob cynghorydd wybod pa gwestiynau y dylai eu gofyn i ofalu bod y rhai sy'n gyfrifol am ddiogelu oedolion yn atebol, bod pawb yn cadw at y gweithdrefnau mae'r amryw asiantaethau wedi cytuno arnyn nhw a bod yr asiantaethau'n cydweithio'n briodol fel na fyddan nhw'n colli'r un achos o bobl mae eisiau eu diogelu a'u helpu.

Atodiad 1 – Astudiaethau o achosion perthnasol

Cam-drin corfforol

Mae Mrs J a Mrs L yn byw mewn cartref sy'n arbenigo mewn gofal a chymorth i bobl ac arnyn nhw ddryswch henaint. Mae un o'r staff wedi dweud iddi weld ar amser cinio Mrs J yn slapio Mrs L ar ei braich gan beri iddi wylo a gadael marc coch ar ei braich.

Pam yr ystyrir hyn yn gam-drin?

Ystyrir hyn yn achos o gam-drin rhwng dau o bobl sy'n defnyddio gwasanaeth, hyd yn oed lle na yw'r naill ddefnyddiwr mewn sefyllfa i ddeall effaith y cam-drin ar y llall. Y rheswm dros hynny yw bod Mrs J wedi ymosod ar Mrs L mewn modd sydd wedi aflonyddu arni a gadael ôl slapen arni.

Camau diogelu priodol:

- Gwahanu'r ddwy wraig fel na fyddai'n digwydd eto.
- Asesu peryglon a pharatoi cynllun rheoli ymddygiad.
- Rhoi gwybod i adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol am yr ymosodiad.
- Rhoi gwybod i'r perthnasau am yr ymosodiad a bod camau atal ar waith.

Cam-drin rhywiol

Mae K yn 29 oed. Mae hanes o afiechyd y meddwl iddi. Wrth siarad â chyfaill, mae hi wedi sôn am berthynas rywiol â gweithiwr oedd yn gofalu amdani tra oedd hi mewn ysbyty preifat yn ddiweddar. Mae'r gŵr wedi dweud nad yw am ei gweld hi mwyach, fodd bynnag.

Pam yr ystyrir hyn yn gam-drin?

Y farn fyddai bod K yn oedolyn oedd yn agored i newid adeg ei derbyn i'r ysbyty. Roedd yr hwn oedd yn gofalu amdani yn gyfrifol am ei diogelwch ac mae e wedi cymryd mantais o'r sefyllfa.

Camau diogelu priodol:

- Dylai K neu ei chyfaill roi gwybod i adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol am yr hyn sydd wedi digwydd.

Esgeuluso

Mae Mr C yn byw gartref gyda'i ferch. Mae arno lid y cymalau a chlefyd y siwgr. Mae'n anodd iddo ddefnyddio ei ddwylo ac, o ganlyniad, all e ddim trin a thrafod ei foddion na pharatoi bwyd. Mae'n dibynnu ar ei deulu am gymorth, felly.

Mae Mr C wedi bod yn benysgafn weithiau gan lewygu unwaith o achos diffyg glwcos yn ei waed (gall y nodweddion amrywio yn ôl natur yr unigolyn). Pan holodd staff y clinig a oedd e'n bwyta'n rheolaidd ac yn cymryd ei inswlin, atebodd Mr C fod lle i wella yn hynny o beth. Roedd ei ferch wedi cytuno i'w helpu ond roedd hi'n brysur iawn a doedd e ddim am beri trafferth iddi.

Pam yr ystyrir hyn yn gam-drin?

Er bod merch Mr C wedi cytuno i ysgwyddo cyfrifoldeb am foddion a bwyd ei thad, mae hi wedi methu â gwneud hynny. Mae iechyd ei thad wedi dirywio am nad yw ei foddion wedi'u rheoli'n briodol, ac mae hynny wedi'i niweidio.

Camau diogelu priodol:

- Dylai staff y clinig gysylltu ag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.
- Dylai'r clinig adolygu sefyllfa feddygol Mr C.

Cam-drin ariannol

Mae Miss M yn byw ar ei phen ei hun ac yn gaeth i'w chartref. Mae hi'n dibynnu ar gymorth cymydog i gasglu ei phensiwn a thalu ei biliau. Bydd Miss M yn sôn yn gariadus am ei chymydog bob tro gan ddweud y byddai ar goll heb y cymorth.

Mae cynghorydd lleol sy'n ymweld â Miss M yn sylwi bod y tŷ'n oer ac yn wlyb. Dim ond ychydig o ddodrefn sydd ynddo ac mae'r carpedi wedi treulio. Ar ôl ei holi am y rhesymau, mae Miss M yn ateb bod y nwy wedi'i dorri rai misoedd cynt am nad oedd hi wedi talu'r bil. Mae hi wedi cysylltu â'r banc a ddywedodd nad oedd digon o arian yn ei chyfrif. All Miss M ddim deall sut y gallai hynny fod wedi digwydd. Roedd rhywfaint o gynilon ganddi, er nad yw'r arian yno mwyach.

Pam yr ystyrir hyn yn gam-drin?

Mae Miss M wedi ymddiried yn ei chymydog i'w helpu i drin a thrafod biliau'r tŷ, ond mae'n ymddangos bellach nad yw'r biliau wedi'u talu ac nad yw eu cynilon yn y banc mwyach.

Camau diogelu priodol:

- Rhaid i'r cynghorydd neu Miss M roi gwybod i adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol am yr hyn sydd wedi digwydd.
- Rhaid cynghori Miss M y dylai hi gysylltu â'r heddlu ynglŷn â lladrata.

Cam-drin seicolegol – gwelir hyn yn aml ynghyd â mathau eraill o gam-drin.

Dewisodd Mrs S fyw gyda'i mab ar ôl codwm yn ei chartref. Ers codymu, all hi ddim symud yn hawdd ac mae'i hystafell wely ar y llawr isaf.

Mewn canolfan oriau dydd, mae Mrs S yn dawel iawn ac yn ei dagrau ar adegau.

Ar ôl i'r staff ei holi beth sy'n bod, mae hi'n dweud mai camgymeriad oedd mynd i fyw gyda'i mab. Mae hi'n dweud ei bod yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser yn ei hystafell wely am ei bod yn teimlo fel baich. Holir a yw hi wedi siarad â'i mab – mae hi'n dweud ei bod wedi ceisio trafod y pwnc gydag e ond ateb hwnnw oedd na allai ei gynnal pe bai hi'n symud ac na fyddai hi'n gweld ei wyrion byth eto.

Pam yr ystyrir hyn yn gam-drin?

Mae mab Mrs S wedi bygwth tynnu cymorth yn ôl a'i rhwystro hi rhag gweld ei wyrion. Mae hynny wedi aflonyddu'n fawr arni.

Camau diogelu priodol:

- Rhaid i staff y ganolfan oriau dydd roi gwybod i adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol am yr hyn sydd wedi digwydd.